The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Atodiad i Nodyn Cyngor 7 – CYFLWYNO'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Mae'r ddogfen hon yn atodiad i Nodyn Cyngor 7: Asesu Effeithiau Amgylcheddol: Y Broses, Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a Datganiadau Amgylcheddol

Mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (y Rheoliadau CFfGR) yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno gyda chais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Lle y bo'n ofynnol, mae hyn yn cynnwys Datganiad Amgylcheddol.

Diben Datganiad Amgylcheddol yw sicrhau bod effeithiau amgylcheddol arwyddocaol Datblygiad Arfaethedig yn cael eu disgrifio a'u deall yn ddigonol. Yna, cyflwynir y wybodaeth hon gerbron yr Awdurdod Archwilio (ExA) ac fe'i harchwilir yn rhan o broses cais DCO cyn i argymhelliad gael ei wneud i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn rhan o'r wybodaeth amgylcheddol a ddylai gynorthwyo'r penderfynwr i ddod i gasgliad rhesymegol ynglŷn â'r effeithiau arwyddocaol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn y dylai'r Datganiad Amgylcheddol fod yn ddogfen 'annibynnol' a baratoir yn unol ag arfer gorau a chyfraith achosion.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori y dylai'r Datganiad Amgylcheddol gael ei gyflwyno mewn ffordd eglur gan osgoi (lle y bo'n bosibl) gorddibynnu ar derminoleg fanwl a thechnegol. Dylai'r Datganiad Amgylcheddol roi disgrifiad eglur, gwrthrychol a realistig o effeithiau arwyddocaol tebygol y Datblygiad Arfaethedig. Dylai gwybodaeth gael ei chyflwyno mewn modd sy'n ddealladwy i arbenigwyr a phobl leyg, fel ei gilydd. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r Datganiad Amgylcheddol fod yn gryno ac y dylai gwybodaeth dechnegol gael ei gosod mewn atodiadau fel y bo'n briodol.

## Cynnwys cyffredinol Datganiad Amgylcheddol

Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (AEA) 2017

Mae Rheoliad 14 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (y Rheoliadau AEA) yn amlinellu pa wybodaeth y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ei chynnwys o leiaf. Mae hyn yn cynnwys:

a) disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig sy'n cynnwys gwybodaeth am safle, dyluniad, maint a nodweddion eraill perthnasol y datblygiad;

b) disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y Datblygiad Arfaethedig ar yr amgylchedd;

c) disgrifiad o unrhyw nodweddion y Datblygiad Arfaethedig, neu fesurau a ddisgwylir er mwyn osgoi, atal neu leihau ac, os yw'n bosibl, gwrthbwyso effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd;

ch) disgrifiad o'r dewisiadau eraill rhesymol a astudiwyd gan yr Ymgeisydd, sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig a'i nodweddion penodol, ac amlinelliad o'r prif resymau dros yr opsiwn a ddewiswyd, gan ystyried effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd;

d) crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraffau (a) i (ch); ac

dd) unrhyw wybodaeth ychwanegol a bennir yn Atodlen 4 sy'n berthnasol i nodweddion arbennig y datblygiad penodol, neu'r math o ddatblygiad, ac i'r nodweddion amgylcheddol y mae'n debygol o effeithio arnynt.

O ystyried Rheoliad 14(2)(f), mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod gwybodaeth benodol a bennir yn Atodlen 4 a fydd bob amser yn 'berthnasol' i'w chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol. Crynhoir hyn ym mhwyntiau 1 i 5 isod, ac mae'n cynnwys:

1. disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys lleoliad, nodweddion ffisegol, nodweddion gweithredol, a gweddillion ac allyriadau disgwyliedig;

2. disgrifiad o'r senario llinell sylfaen, gan gynnwys y llinell sylfaen yn y dyfodol heb ddatblygiad i'r graddau y gellir ei hasesu;

3. disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ragfynegi effeithiau arwyddocaol;

4. disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol (cadarnhaol a negyddol) y Datblygiad Arfaethedig gan roi ystyriaeth i effeithiau sy'n; uniongyrchol ac anuniongyrchol, eilaidd, cronnol, trawsffiniol, tymor byr, tymor canolig neu dymor hir, parhaol a dros dro; a

5. disgrifiad o fesurau osgoi a lliniaru ac i ba raddau y byddant yn effeithiol, a disgrifiad o unrhyw drefniadau monitro arfaethedig.

Mae Atodlen 4 (Paragraff 4) y Rheoliadau AEA yn rhestru'r agweddau amgylcheddol y dylid eu hystyried (lle y bo'n berthnasol) wrth bennu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, sef:

- Bioamrywiaeth (er enghraifft, anifeiliaid a phlanhigion);
- Dŵr (er enghraifft, newidiadau hydromorffolegol, maint ac ansawdd);
- Aer;
- Tirwedd;
- Treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys agweddau pensaernïol ac archaeolegol;
- Tir (er enghraifft, meddiannu tir);
- Pridd (er enghraifft, defnydd organig, erydu, cywasgu, selio);
- Asedau materol;

- Y boblogaeth;
- Iechyd dynol; a’r
- Hinsawdd (er enghraifft, allyriadau nwyon tŷ gwydr, effeithiau sy’n berthnasol i ymaddasu).

Nid yw’r Rheoliadau yn amlygu traffig a thrafnidiaeth fel agwedd benodol. Fodd bynnag, mae arfer da yn dangos y gall hyn fod yn ystyriaeth bwysig wrth asesu effeithiau amgylcheddol, yn enwedig o ran effeithiau rhyng-gysylltiedig ar ansawdd aer, sŵn a dirgryniad, a dylid ei hasesu lle y bo’n berthnasol.

Mae’r Rheoliad hefyd yn mynnu (lle y bo’n berthnasol) bod y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys disgrifiad o effeithiau arwyddocaol sy’n gysylltiedig â pherygl damweiniau mawr a/neu drychinebau. Mae’r Arolygiaeth o’r farn y dylai hyn dderbyn sylw o ran; y posibilrwydd y gallai’r Datblygiad Arfaethedig achosi damweiniau mawr a/neu drychinebau, ond hefyd pa mor agored yw’r Datblygiad Arfaethedig i ddamweiniau mawr a thrychinebau posibl.

Mae’r Rheoliadau AEA yn mynnu, pan fydd barn gwmpasu wedi cael ei mabwysiadu, bod y Datganiad Amgylcheddol yn cael ei seilio ar y farn gwmpasu ddiweddaraf (ar yr amod bod y prosiect yn parhau i fod yr un fath yn ei hanfod) ac yn cynnwys y wybodaeth sy’n ofynnol i ddod i gasgliad rhesymegol ynglŷn â’r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol.

## Ymagwedd gytbwys

Mae’r Arolygiaeth Gynllunio yn disgwyl i’r Datganiad Amgylcheddol fod yn gytbwys, a rhoi mwy o amlygrwydd i effeithiau sy’n fwy tebygol o gynhyrchu effeithiau arwyddocaol. Lle nad oes llawer o effeithiau wedi’u hamlygu, neu ddim effeithiau, gallai’r canfyddiadau yn y bennod ar yr agwedd berthnasol fod yn fwy cryno.

Dylai’r Datganiad Amgylcheddol esbonio’r ystod o faterion sydd i’w hystyried o dan bob agwedd y gallai nodweddion y Datblygiad Arfaethedig ddylanwadu arnynt. Os yw cwmpas y materion sydd i’w hystyried yn gul, dylid cyfiawnhau hyn.

## Disgrifio’r Datblygiad Arfaethedig a darparu hyblygrwydd

Dylai’r Datganiad Amgylcheddol gynnwys disgrifiad o leoliad a nodweddion ffisegol y Datblygiad Arfaethedig. Dylai hyn gynnwys disgrifiad o unrhyw waith dymchwel sy’n ofynnol a gofynion defnydd tir ar gyfer adeiladu a gweithredu (a datgomisiynu, os yw’n berthnasol). Dylai’r disgrifiad fynd i’r afael ag unrhyw brosesau cynhyrchu gweithredol a chynnwys gwybodaeth am y gweddillion a’r allyriadau disgwyliedig.

Mae’r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod bod y broses AEA yn ailadroddol, ac felly y gallai’r Datblygiad Arfaethedig newid ac esblygu. Er enghraifft, gallai newidiadau gael eu gwneud i’r dyluniad mewn ymateb i ymgynghoriad. Dylid adrodd am newidiadau o’r fath a rhoi sylw iddynt yn y Datganiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, ar adeg y cais am DCO, ni ddylai unrhyw baramedrau Datblygiad

Arfaethedig fod mor eang fel eu bod yn gyfystyr â chynlluniau gwahanol i bob pwrpas.

Os defnyddir paramedrau dylunio i lywio'r asesiad, dylent gael eu diffinio'n eglur a bod yn gyson â'r paramedrau perthnasol a amlygwyd yn y DCO drafft. Dylai'r Datganiad Amgylcheddol amlinellu unrhyw baramedrau sy'n berthnasol i'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r Ymgeisydd geisio cyfyngu ystod yr opsiynau ac esbonio'n eglur yn y Datganiad Amgylcheddol pa elfennau o'r Datblygiad Arfaethedig nad ydynt wedi cael eu cwblhau'n derfynol eto, gan roi rhesymau. Pan geisir hyblygrwydd, dylai'r Datganiad Amgylcheddol gynnwys cyfiawnhad ac esboniad priodol o'r angen i gyfeirio at ddogfennau cais eraill i gael gwybodaeth fanwl, fel y bo'r angen. Wrth bennu hyblygrwydd addas, fe allai hefyd fod yn berthnasol ystyried y dewis o ddeunyddiau, ffurf unrhyw strwythurau ac adeiladau, a chynigion ar gyfer goleuadau, yn enwedig os yw'r agweddau hyn yn ymwneud â'r asesiad (er enghraifft, os ydynt yn ffurfio rhan o gynigion lliniaru).

Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod asesiad seiliedig ar baramedrau yn ystyried senario achos gwaethaf y Datblygiad Arfaethedig (o ran effeithiau amgylcheddol) er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei asesu'n gadarn.

Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd yn gyffredinol ag egwyddor Amlen Rochdale *(gweler R v Rochdale MBC ex parte Tew (1999) ac R v Rochdale MBC ex parte Milne (2000))*, sy'n fodd o ymdrin ag ansicrwydd wrth baratoi ceisiadau datblygu. Tynnir sylw'r Ymgeisydd at Nodyn Cyngor 9 yr Arolygiaeth Gynllunio: Amlen Rochdale sydd ar gael ar dudalen Nodiadau Cyngor y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Wrth baratoi Datganiad Amgylcheddol, dylai'r Ymgeisydd bennu p'un a yw'n bosibl asesu'n gadarn ystod o effeithiau sy'n deillio o fwy o hyblygrwydd a nifer fawr o  baramedrau heb eu penderfynu. Dylai Ymgeiswyr fod yn ymwybodol na ddylai'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig yn y Datganiad Amgylcheddol fod mor eang fel nad oes digon o sicrwydd y gall mynd i'r afael â gofynion y Rheoliadau AEA.

Dylai'r Datganiad Amgylcheddol allu cadarnhau na fyddai unrhyw newidiadau i'r Datblygiad Arfaethedig o fewn unrhyw baramedrau arfaethedig yn arwain at effeithiau arwyddocaol na chawsant eu hamlygu a'u hasesu yn flaenorol.

Er nad yw hyn yn cael ei annog, mae Nodyn Cyngor 16 yn rhoi cyngor ynglŷn â gofyn am gael gwneud newidiadau (a allai fod yn berthnasol) i Ddatblygiad Arfaethedig ar ôl i gais gael ei dderbyn a chyn i'r Archwiliad ddod i ben. Mewn amgylchiadau o'r fath, yr Ymgeisydd fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw effeithiau y gallai'r newid eu cael ar y Datganiad Amgylcheddol (a'r broses AEA, gan gynnwys cyhoeddusrwydd ac ymgynghori) yn derbyn sylw.

## Mynd i'r afael â dewisiadau eraill

Mae'n rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol fynd i'r afael â'r dewisiadau eraill rhesymol a astudiwyd gan yr Ymgeisydd ac amlinellu'r prif resymau dros ddewis yr Ymgeisydd, gan gynnwys cymharu'r effeithiau amgylcheddol (Rheoliad 14(2)(d) ac Atodlen 4).

Dylai'r disgrifiad o'r dewisiadau eraill ystyried penderfyniadau yn ymwneud ag opsiynau eraill ar gyfer lleoliadau, llwybrau a dyluniad. Dylid egluro'r cyfiawnhad dros y dewis terfynol a sut mae datblygiad y cynllun wedi esblygu.

## Llinell sylfaen

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r llinell sylfaen ddisgrifio (gan gyfeirio at yr agweddau amgylcheddol perthnasol) cyflwr presennol yr amgylchedd sy'n derbyn (y senario llinell sylfaen). Mae cywirdeb y senario llinell sylfaen yn arbennig o bwysig oherwydd fe'i defnyddir i fesur effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig. Dylai'r llinell sylfaen gael ei dewis yn ofalus a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai fod yn gyson rhwng agweddau. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r senario llinell sylfaen gael ei esbonio'n eglur yn y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys dyddiadau unrhyw arolygon a ddefnyddiwyd i'w lywio. Dylid sicrhau'n arbennig bod yr holl ddata llinell sylfaen yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.

O ran pob agwedd amgylcheddol, dylai'r ffynhonnell ddata/ffynonellau data a ddefnyddiwyd i sefydlu'r llinell sylfaen gael ei/eu hesbonio, ynghyd â manylion unrhyw waith arolygu a gynhaliwyd. Dylid cytuno ar amseriad a chwmpas pob arolwg gyda'r cyrff statudol perthnasol ac ymgyngoreion priodol, lle bynnag y bo'n bosibl.

Dylai'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig a'r senario llinell sylfaen ystyried cyd-destun y safle ac unrhyw gynigion eraill yn y cyffiniau. Mae paragraff 3 Atodlen 4 y Rheoliadau AEA hefyd yn datgan bod angen i'r asesiad ystyried y llinell sylfaen yn y dyfodol yn absenoldeb y datblygiad, lle y bo'n berthnasol.

## Amlygu ac asesu effeithiau

### Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae'r Rheoliadau AEA yn mynnu (lle y bo'n berthnasol) disgrifiad o'r 'dulliau rhagfynegi neu dystiolaeth' a ddefnyddiwyd yn yr asesiad. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell bod y fethodoleg AEA yn cyfeirio (fel y bo'n berthnasol) at ddeddfwriaeth, polisi, safonau, canllawiau ac arfer gorau perthnasol a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad. Dylai hyn gynnwys unrhyw Ddatganiad(au) Polisi Cenedlaethol a chanllawiau perthnasol a baratowyd gan gyrff proffesiynol perthnasol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell bod y methodolegau ar gyfer casglu data llinell sylfaen, amlygu cwmpas, amlygu effeithiau, a phennu arwyddocâd oll yn cael eu hesbonio'n eglur yn adran briodol/adrannau priodol y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai gofynion cyfundrefnau rheoleiddio eraill, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol ac unrhyw hawlenni neu drwyddedau sy'n ofynnol, gael eu rhestru yn y Datganiad Amgylcheddol, fel y bo'n berthnasol i bob agwedd neu fater a asesir. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn rhoi syniad o'r cynnydd a wnaed tuag at sicrhau hawlenni neu drwyddedau eraill, a'r graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â nhw, er enghraifft lle y gallai'r rhain ddylanwadu ar effeithiolrwydd neu gyflawni mesurau osgoi neu liniaru. Mae'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon gyda'r cais yn unol â'r Rheoliadau CFfGR.

## Cwmpas ffisegol

Yn gyffredinol, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r cwmpas ffisegol ar gyfer pob mater a asesir gael ei bennu yng ngoleuni:

- natur y cynnig sy'n cael ei ystyried;
- y perthnasedd o ran y mater neu'r agwedd;
- ehangder yr agwedd sy'n cael ei hystyried;
- maint ffisegol unrhyw arolygon neu'r ardal astudio; a
- graddfa effeithiau posibl.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai cwmpas ffisegol yr ardaloedd astudio gael ei amlygu a'i gyfiawnhau ar gyfer pob un o'r agweddau. Dylai'r ardaloedd astudio fod yn ddigon cadarn i allu cynnal yr asesiad. Dylent gynnwys o leiaf safle cyfan y Datblygiad Arfaethedig ac unrhyw Ddatblygiad Cysylltiedig. Dylai maint yr ardaloedd astudio gael ei sefydlu yn unol â chanllawiau ac arfer gorau proffesiynol cydnabyddedig, os ydynt ar gael, a dylai gael ei bennu gan roi ystyriaeth i raddau'r effeithiau tebygol. Dylai'r ardaloedd astudio gael eu cytuno gyda'r ymgyngoreion perthnasol ac, os nad yw hyn yn bosibl, dylid datgan hynny'n eglur yn y Datganiad Amgylcheddol gyda chyfiawnhad rhesymedig.

## Cwmpas o ran lle ac amser

Dylai'r asesiad ystyried:

- effeithiau yn ystod gwaith dymchwel ac adeiladu;
- effeithiau ar gwblhau/ gweithredu'r Datblygiad Arfaethedig;
- effeithiau ar ôl cwblhau'r Datblygiad Arfaethedig (er enghraifft, er mwyn caniatáu ar gyfer twf traffig neu aeddfedu unrhyw gynigion tirwedd); ac
- effeithiau yn ymwneud â datgomisiynu.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod y gallai fod yn anodd asesu effeithiau o ganlyniad i weithgareddau datgomisiynu yn y dyfodol, nid lleiaf oherwydd bod asesiad a wneir ar sail senarios yn y dyfodol yn llai sicr, a gellir dibynnu llai ar y canlyniad. Fodd bynnag, diben asesiad tymor hir o'r fath (yn ogystal â galluogi ystyried datgomisiynu'r gwaith) yw annog ystyriaeth gynnar o sut y gellir symud strwythurau ymaith ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol. Gellir defnyddio'r asesiad i helpu i leihau aflonyddu gymaint â phosibl, cynyddu ailddefnyddio deunyddiau ac adfer y safle neu wneud defnydd newydd addas ohono. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn annog ystyried materion o'r fath yn y Datganiad Amgylcheddol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r materion hyn gael eu hamlinellu'n eglur yn y Datganiad Amgylcheddol ac y dylai'r cyfnod addas ar gyfer yr asesiad gael ei gytuno gyda'r ymgyngoreion statudol perthnasol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ddefnyddio terminoleg gyson i ddiffinio cyfnodau, fel bod 'tymor byr', er enghraifft, yn cyfeirio at yr un cyfnod bob tro.

## Asesu effeithiau ac arwyddocâd

Mae'r Rheoliadau AEA yn mynnu bod y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys disgrifiad o 'effeithiau arwyddocaol tebygol y Datblygiad Arfaethedig ar yr amgylchedd'. Dylai'r asesiad ystyried natur yr effaith/effeithiau, gan gynnwys p'un a ydynt yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, eilaidd, cronnol (gweler isod), trawsffiniol, tymor byr, tymor canolig neu dymor hir, parhaol a dros dro.

Mewn egwyddor, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio ymagwedd ragofalus i ddilyn rhesymeg y Llys wrth farnu 'effeithiau arwyddocaol'. Mewn geiriau eraill, ystyrir bod 'yn debygol o effeithio ar' yn golygu bod tebygolrwydd neu berygl y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith, ac nid y bydd datblygiad yn sicr o gael effaith.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol ddiffinio ystyr 'arwyddocaol' yng nghyd-destun pob un o'r agweddau a asesir a bod effeithiau arwyddocaol yn cael eu hamlygu'n glir. Dylai'r meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu 'arwyddocâd' pob agwedd gael eu hesbonio'n eglur hefyd. Dylid defnyddio meini prawf meintiol os ydynt ar gael. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn y dylai hyn fod yn berthnasol i ystyried effeithiau cronnol ac effeithiau cydberthynas hefyd.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio ar bob agwedd ar yr amgylchedd yn wahanol. Fodd bynnag, mae'n credu y byddai'n ddefnyddiol, o ran hwyluso dealltwriaeth a chyflwyniad eglur, pe byddai'r asesiad o effeithiau yn cael ei ystyried mewn modd tebyg ar gyfer pob un o'r agweddau a asesir. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylid defnyddio fformat cyffredin lle y bo'n bosibl.

### Y cydberthynas rhwng agweddau amgylcheddol

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn bod rhaid asesu'r cydberthynas rhwng agweddau er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig yn eu cyfanrwydd. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai pob un o'r agweddau a ystyrir yn y Datganiad Amgylcheddol groesgyfeirio at agweddau eraill perthnasol lle y bo'r angen. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r Datganiad Amgylcheddol yn gyfres o adroddiadau ar wahân wedi'u casglu ynghyd yn un ddogfen, ond yn hytrach yn asesiad cynhwysfawr sy'n dwyn ynghyd effeithiau amgylcheddol y Datblygiad Arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried effeithiau unrhyw drynewidiadau neu baramedrau yn ymwneud â'r Datblygiad Arfaethedig.

### Effeithiau cronnol

Bydd angen amlygu ac asesu'r effeithiau cronnol posibl gyda datblygiadau eraill, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau AEA. Dylai effeithiau arwyddocaol gael eu pennu gan roi ystyriaeth i'r sefyllfa llinell sylfaen (a fyddai'n cynnwys datblygiad adeiledig a gweithredol). Mae'r Rheoliadau AEA (Atodlen 4) yn cyfeirio at 'ddatblygiad presennol a/ neu gymeradwy' o ran cwmpas asesiad o effeithiau cronnol. Mae Nodyn Cyngor 17 yr Arolygiaeth Gynllunio yn esbonio y dylai'r asesiad hwn gynnwys datblygiad y gellir ei ragweld yn rhesymol (gyda datblygiad adeiledig yn ffurfio rhan o'r llinell sylfaen). Wrth asesu effeithiau cronnol, dylai datblygiadau eraill i'w cynnwys yn y cwmpas gael eu hamlygu trwy

ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol a sefydliadau eraill perthnasol er mwyn amlygu:

- prosiectau sy'n cael eu hadeiladu;
- cais/ceisiadau a ganiatawyd nad ydynt wedi'u gweithredu eto;
- cais/ceisiadau a gyflwynwyd na phenderfynwyd arnynt eto;
- pob gwrthodiad sy'n destun gweithdrefnau apêl na phenderfynwyd arnynt eto;
- prosiectau ar y Gofrestr ceisiadau ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol; a
- phrosiectau a amlygwyd yn y cynllun datblygu perthnasol (a chynlluniau datblygu sydd ar y gweill, y rhoddir pwys priodol iddynt wrth iddynt symud yn agosach at gael eu mabwysiadu), gan gydnabod y gallai gwybodaeth am gynigion o'r fath fod yn gyfyngedig.

Dylid darparu manylion yn y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys math, lleoliad a nodweddion allweddol datblygiadau a allai effeithio ar yr AEA a sut mae'r rhain wedi cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn pwysleisio pa mor bwysig yw ymagwedd gadarn at yr asesiad a'r angen i ystyried datblygiadau eraill yn gyffredinol. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol i ffermydd gwynt ar y môr gyfyngu'r asesiad i asesu ffermydd gwynt eraill ar y môr yn unig. Dylent hefyd ystyried unrhyw weithgareddau ar y môr y rhoddwyd trwydded neu gydsyniad iddynt yn yr ardal, at ddibenion yr asesiad o effeithiau cronnol. Mae ymgynghori â'r cyrff trwyddedu/ cydsynio perthnasol yn hanfodol er mwyn cytuno ar yr ymagwedd hon.

Lle y bo'n berthnasol, dylai ymgeiswyr ymgynghori â chyrff cydsynio mewn gwladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd er mwyn cynorthwyo i amlygu effeithiau cronnol â datblygiadau eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig (gweler y sylwadau ar effeithiau trawsffiniol isod).

**Datblygiad cysylltiedig/ canlyniadol**

Dylai'r Datganiad Amgylcheddol asesu datblygiad sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig neu'n ganlyniadol iddo (ond y bwriedir iddo gael ei gydsynio/cyflenwi ar wahân) er mwyn sicrhau bod holl effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn cael eu hasesu. Bydd hyn yn cynnwys datblygiad a allai fod yn ddarostyngedig i hawliau a ganiateir ond sy'n angenrheidiol neu'n ganlyniadol i'r Datblygiad Arfaethedig.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r Ymgeisydd wahaniaethu rhwng y Datblygiad Arfaethedig y ceisir caniatâd datblygu ar ei gyfer ac unrhyw ddatblygiad arall. Dylai'r gwahaniaeth hwn fod yn eglur yn y Datganiad Amgylcheddol.

**Mesurau lliniaru a monitro**

Gall mesurau lliniaru berthyn i gategorïau penodol, sef: osgoi; atal; lleihau; neu wrthbwyso (gweler Rheoliad 14(2)(c) ac Atodlen 4 paragraff 7 y Rheoliadau

AEA); a dylid eu hamlygu felly. Ni ddylai mesurau lliniaru gael eu datblygu ar wahân oherwydd gallent fod yn berthnasol i fwy nag un agwedd. Dylai'r Datganiad Amgylcheddol amlinellu unrhyw fesurau lliniaru, ac amlygu i ba raddau y disgwylir i'r rhain osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol ar yr agweddau perthnasol o'r amgylchedd. Dylai unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig gael eu trafod, a'u cytuno, lle bynnag y bo'n bosibl, gyda'r ymgyngoreion perthnasol. Dim ond mesurau lliniaru sy'n ymrwymiad pendant ac y gellir dangos bod modd eu cyflawni y dylid eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

Mae Atodlen 4 y Rheoliadau AEA hefyd yn cyfeirio at gynnwys unrhyw drefniadau monitro sy'n berthnasol. Mae arfer da yn dangos y dylai unrhyw fesurau unioni arfaethedig sy'n cyd-fynd â'r trefniadau monitro gael eu disgrifio hefyd.

Dylai'r mesurau lliniaru a monitro a gynigir yn y Datganiad Amgylcheddol gael eu croesgyfeirio at ddarpariaethau a/ neu Ofynion penodol a gynigir yn y DCO drafft (neu'r Amod Trwydded Forol Dybiedig (DML), os yw'n berthnasol). Gellid cyflawni hyn trwy ddisgrifio'r mesurau lliniaru a gynigir naill ai yn y penodau ar agweddau unigol neu drwy eu cydgrynhoi mewn adran tablau crynhoi ar fesurau lliniaru/monitro. Os na ddarperir hyn, mae'n debygol y bydd yr Awdurdod Archwilio'n gofyn am dabl o'r math hwn.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio o'r farn ei bod yn arfer gorau i'r Datganiad Amgylcheddol amlinellu strwythur unrhyw gynllun rheoli a monitro amgylcheddol y dibynnwyd arno. Dylai hyn gynnwys unrhyw weithdrefnau diogelwch angenrheidiol a fydd yn cael eu mabwysiadu yn ystod y camau adeiladu a gweithredu ac y gellid eu mabwysiadu yn ystod y camau datgomisiynu.

Mae hefyd yn arfer da i esbonio sut y bydd cynlluniau rheoli arfaethedig yn gysylltiedig â'i gilydd. Dylai Ymgeiswyr ystyried cynnwys diagram neu siart 'hierarchaeth cynlluniau' yn rhan o'r cais.

## Effeithiau trawsffiniol

Mae Rheoliad 32 y Rheoliadau AEA yn gosod dyletswyddau ar yr Arolygiaeth Gynllunio o ran effeithiau trawsffiniol arwyddocaol. Yng ngoleuni hyn, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ystyried unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar amgylchedd Aelod-wladwriaeth arall o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Yn arbennig, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i ollyngiadau i'r aer a'r dŵr, effeithiau posibl ar rywogaethau mudol ac effeithiau ar ardaloedd morgludo a physgota.

Tynnir sylw'r Ymgeisydd hefyd at Nodyn Cyngor 12: Effeithiau Trawsffiniol yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd ar gael ar y dudalen Nodiadau Cyngor ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Rheoliadau AEA 2017 yn cyflwyno dyletswydd ar yr awdurdod perthnasol i sicrhau cydlyniad rhwng yr AEA a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Maen nhw hefyd yn crybwyll yn benodol y dylid rhoi ystyriaeth i gynefinoedd a

rhywogaethau a warchodir gan Ewrop wrth asesu effeithiau arwyddocaol ar fioamrywiaeth.

## Tablau crynhoi

Er mwyn hwyluso'r broses benderfynu, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylai'r Ymgeisydd ystyried defnyddio tablau yn y Datganiad Amgylcheddol i:

- ddangos sut mae'r asesiad wedi ystyried y farn gwmpasu ddiweddaraf ac unrhyw gytundeb dilynol y daethpwyd iddo gyda'r ymgyngoreion perthnasol ynglŷn â chwmpas yr asesiad, ynghyd â chyfeiriad at y dystiolaeth ychwanegol sy'n cyfiawnhau'r ymagwedd;
- amlinellu'r mesurau lliniaru a/ neu fonitro arfaethedig, gan gynnwys croesgyfeirio at y dull o sicrhau'r cyfryw fesurau (e.e. Gofyniad DCO drafft);
- amlygu a choladu'r effeithiau gweddilliol ar ôl lliniaru ar gyfer pob un o'r agweddau a ystyriwyd, gan gynnwys lle y maent yn ymwneud â chydberthynas ac effeithiau cronnol;
- disgrifio unrhyw fesurau unioni yr amlygwyd eu bod yn angenrheidiol ar ôl monitro; ac
- amlygu lle mae manylion yn yr adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (lle y bo'n berthnasol), fel disgrifiadau o safleoedd Ewropeaid a'u lleoliadau, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru neu ddigolledu, i'w canfod yn y Datganiad Amgylcheddol.

## Terminoleg a rhestr termau technegol

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell y dylid defnyddio terminoleg gyffredin yn y Datganiad Amgylcheddol ac ar draws pob un o ddogfennau'r cais. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac yn hwyluso dealltwriaeth yn y broses benderfynu. Er enghraifft, dylid diffinio 'safle'r cais' (e.e. i olygu'r un fath â 'therfynau'r gorchymyn') a'i ddefnyddio yn unol â'r diffiniad hwn yn unig er mwyn osgoi ei ddrysu ag, er enghraifft, ardal ehangach y safle neu'r safle amgylchynol. Dylid cynnwys rhestr termau technegol yn y Datganiad Amgylcheddol.

## Crynodeb Annhechnegol

Mae'r Rheoliadau AEA yn mynnu bod Crynodeb Annhechnegol yn cael ei ddarparu (Rheoliad 14(2)(e), Atodlen 4). Dylai hwn grynhoi'r asesiad mewn iaith syml. Dylai gael ei ategu gan ffigurau, ffotograffau a ffotogyfosodiadau priodol, lle y bo'n berthnasol.

## Cyflwyniad

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn argymell bod pob paragraff yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael eu rhifo, gan fod hyn yn ei gwneud hi'n haws, ac yn fwy cywir, cyfeirio atynt yn ystod yr archwiliad. Mae'n rhaid i atodiadau i'r Datganiad Amgylcheddol gael eu cyfeirnodi'n eglur, gyda'r holl baragraffau wedi'u rhifo unwaith eto. Dylai'r holl ffigurau a lluniadau, ffotograffau a ffotogyfosodiadau gael eu cyfeirnodi'n eglur. Dylai ffigurau ddynodi ffin safle'r Datblygiad Arfaethedig yn eglur, gan gynnwys Datblygiad Cysylltiedig.

## Gwybodaeth gyfrinachol

Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn briodol i wybodaeth gael ei chadw’n gyfrinachol. Yn arbennig, gallai hyn ymwneud â gwybodaeth am bresenoldeb a lleoliadau rhywogaethau prin neu sensitif fel moch daear, ac adar a phlanhigion prin y gallai cyhoeddi’r wybodaeth hon arwain at aflonyddu arnynt, eu difrodi, eu herlid neu gamfanteisio’n fasnachol arnynt. Lle y bwriedir i ddogfennau aros yn gyfrinachol, dylai’r Ymgeisydd ddarparu’r rhain ar ffurf dogfennau papur ac electronig ar wahân a nodi eu natur gyfrinachol yn eglur yn y teitl, gyda dyfrnod sy’n cyfleu’r un peth ar bob tudalen. Ni ddylai’r wybodaeth gael ei chynnwys mewn dogfennau eraill y bwriedir eu cyhoeddi neu y byddai’n ofynnol i’r Arolygiaeth Gynllunio eu datgelu o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2014.

## Cyfyngiadau ac arbenigedd

Fel yr amlinellir yn Atodlen 4 (Paragraff 6) y Rheoliadau AEA, dylai’r Datganiad Amgylcheddol gynnwys disgrifiad o unrhyw anawsterau (diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth) a wynebodd yr Ymgeisydd wrth gasglu’r wybodaeth ofynnol.

Mae Rheoliad 14(4) y Rheoliadau AEA yn pwysleisio’r angen i’r Datganiad Amgylcheddol gael ei baratoi gan arbenigwyr cymwys a bod datganiad o gymwysterau gan yr Ymgeisydd yn cyd-fynd ag ef.

## Llyfryddiaeth neu restr gyfeirio

Mae’r Rheoliadau AEA (Atodlen 4, Paragraff 10) yn mynnu bod llyfryddiaeth/rhestr gyfeirio yn cael ei darparu, a dylid ei chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Dylai pob cyfeiriad gynnwys yr awdur, y dyddiad a’r teitl cyhoeddi. Dylid cynnwys pob cyhoeddiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiadau technegol.